OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1053 (Cy.109)

ANIFEILIAID, CYMRU

Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006

Wedi - - - -	*4 Ebrill 2006*
Yn dod i rym - -	*2 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 1, 7(1), 8(1), 15(4), 25, 32(2), 83(2), 87(2) a 88(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Mai 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru a Lloegr) 1984(**2**) a Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 1990(**3**) drwy hyn wedi'u dirymu i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

3.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:—

"adweithydd" ("*reactor*") yw anifail buchol sy'n adweithio i brawf perthnasol mewn modd sy'n gyson â'i fod wedi'i effeithio arno gan dwbercwlosis;

"anifail a amheuir" ("*suspected animal*") yw anifail buchol yr amheuir ei fod wedi'i effeithio arno gan dwbercwlosis, ac mae'n cynnwys adweithydd;

"anifail buchol" ("*bovine animal*") yw gwartheg domestig o'r genws *Bos*, byfflo a bual;

"anifail yr effeithiwyd arno" ("*affected animal*") yw buwch yr effeithiwyd arni gan dwbercwlosis y pwrs neu sy'n rhoi llaeth twbercylaidd, neu anifail buchol yr effeithiwyd

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd i "the Ministers", i'r graddau y gellid eu harfer gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**2**) O.S. 1984/1943.
(**3**) O.S. 1990/1869.

arno gan deneuo twbercylaidd, neu sy'n ysgarthu neu'n gollwng deunydd twbercylaidd, neu yr effeithiwyd arno gan beswch cronig, neu sy'n dangos unrhyw arwydd clinigol arall o dwbercwlosis;

"y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981;

"prawf croen" ("*skin test*") yw prawf twbercwlin serfigol cymharol mewngroen sengl;

"prawf perthnasol" ("*relevant test*") yw prawf croen neu brawf diagnostig arall ar gyfer twbercwlosis;

"y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" ("*the Divisional Veterinary Manager*") yw'r archwiliwr milfeddygol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i dderbyn gwybodaeth ynghylch anifeiliaid neu garcasau yr effeithiwyd arnynt gan glefydau penodedig, neu yr amheuir eu bod wedi'u heffeithio felly, ar gyfer yr ardal lle mae'r anifail neu'r carcas;

"twbercwlosis" ("*tuberculosis*") yw heintiad â *Mycobacterium bovis (M.bovis)*;

"uned besgi" ("*finishing unit*") yw mangre lle mae anifeiliaid buchol yn cael eu pesgi ac o'r lle y'u hanfonir i'w cigydda.

Estyn y diffiniad o "disease" a phŵer i gigydda o achos twbercwlosis

4. At ddibenion y Ddeddf, estynnir y diffiniad o "disease" yn adran 88(1) o'r Ddeddf fel ag i gynnwys twbercwlosis, ac mae adran 32 o'r Ddeddf (pŵer i gigydda anifeiliaid) yn gymwys o ran y clefyd hwnnw.

Hysbysu ynghylch y clefyd mewn anifeiliaid buchol

5.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n amau fod anifail buchol sydd yn ei feddiant neu o dan ei ofal mewn unrhyw fangre yn anifail yr effeithiwyd arno, neu'n anifail a allai fod felly, wneud y canlynol yn ddi-oed—

(a) hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol

(b) hyd y cwblheir yr ymchwiliad milfeddygol o dan erthygl 7 a chyflwyno unrhyw hysbysiad o dan yr erthygl honno—

(i) cadw'r anifail hwnnw yn y fangre lle mae ar yr adeg honno;

(ii) ei ynysu i'r graddau y mae hynny'n ymarferol oddi wrth anifeiliaid buchol eraill; a

(iii) arfer rhagofalon mewn perthynas â llaeth a gynhyrchwyd gan yr anifail hwnnw fel pe bai hysbysiad o dan erthygl 7 wedi'i gyflwyno'n barod.

(2) Rhaid i filfeddyg sy'n amau fod anifail a archwiliwyd ganddo yng nghwrs ei waith yn anifail yr effeithiwyd arno, neu'n anifail a allai fod felly, hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol yn ddi-oed.

Hysbysu ynghylch y clefyd mewn carcasau

6.—(1) Rhaid i unrhyw berson—

(a) y mae yna yn ei feddiant neu o dan ei ofal mewn unrhyw fangre unrhyw garcas yr effeithiwyd arno gan dwbercwlosis, neu garcas yr amheuir ei fod felly;

(b) sydd yng nghwrs ei waith fel milfeddyg yn archwilio unrhyw garcas o'r fath; neu

(c) sydd yng nghwrs ei ddyletswyddau'n archwilio'r fath garcas i unrhyw ddiben;

cyn gynted ag y bydd yn amau y gallai'r carcas fod wedi'i effeithio arno gan dwbercwlosis, hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol.

(2) Rhaid i berson y mae yna yn ei feddiant neu o dan ei ofal garcas y mae paragraff (1) yn gymwys iddo ei gadw yn y fangre lle mae ar yr adeg honno hyd nes y bydd wedi'i archwilio gan arolygwr milfeddygol.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2) uchod, mae "carcas" ("*carcase*") yn golygu carcas unrhyw anifail buchol neu famal a ffermir neu famal anwes arall.

Ymchwiliad milfeddygol i bresenoldeb y clefyd

7.—(1) Pan fo gan archwiliwr milfeddygol reswm i gredu bod anifail yr effeithiwyd arno neu anifail a amheuir (heblaw adweithydd) neu garcas anifail buchol yr effeithiwyd arno neu yr amheuir ei fod wedi'i effeithio arno gan dwbercwlosis yn bresennol mewn unrhyw fangre, rhaid iddo, a hynny mor gyflym ag sy'n ymarferol, gymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol i ddarganfod a yw mewn difri'n anifail neu garcas yr effeithiwyd arno neu'n anifail neu garcas a amheuir.

(2) At ddibenion cyflawni'i ddyletswyddau o dan yr erthygl hon, caiff archwiliwr milfeddygol archwilio unrhyw anifail buchol neu garcas anifail buchol yn y fangre a chymryd pa bynnag samplau o unrhyw anifail neu garcas o'r fath neu gyflawni pa bynnag brofion ag sy'n ofynnol i'r diben o wneud diagnosis.

(3) Rhaid i archwiliwr milfeddygol gyflwyno hysbysiad i geidwad unrhyw anifail buchol a archwiliwyd ganddo sydd yn ei farn yn anifail yr effeithiwyd arno neu'n anifail a amheuir, yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceidwad—

(a) cadw'r anifail hwnnw yn unol â gofynion yr hysbysiad a'i gadw wedi'i ynysu oddi wrth anifeiliaid buchol eraill;

(b) lle bo hynny'n briodol, yn cymryd camau i sicrhau nad yw'r llaeth a gynhyrchwyd gan yr anifail yn cael ei gymysgu â llaeth arall a'i fod yn cael ei ferwi neu ei sterileiddio mewn ffordd arall, a bod unrhyw lestr y bu'r llaeth hwnnw mewn cysylltiad ag ef cyn ei drin felly yn gorfod cael ei lanhau'n drwyadl a'i sgaldio gyda stêm neu ddŵr berwedig cyn y defnyddir y teclyn eto; ac

(c) yn sicrhau na chaiff unrhyw anifail buchol ei symud i'r fangre neu allan ohoni, neu i unrhyw ran o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad neu allan o'r fath ran, heblaw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd.

Profi ar gyfer twbercwlosis

8.—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad anifail buchol, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw anifail o'r fath gael ei brofi ar gyfer twbercwlosis erbyn dyddiad penodedig.

(2) Heb ragfarnu erthygl 13, pan fu yna fethiant i brofi anifail yn unol â hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff (1) caiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad yr anifail hwnnw, wahardd symud anifeiliaid buchol neu'r anifeiliaid buchol hynny a bennir yn yr hysbysiad i'r fangre neu allan ohoni, neu i unrhyw ran o'r fangre neu allan ohoni, heblaw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd.

(3) Rhaid i geidwad anifail buchol gydymffurfio â phob gofyniad rhesymol a wneir gan yr arolygydd, parthed—

(a) hwyluso archwilio'r anifail hwnnw gan yr arolygydd hwnnw;

(b) cyflawni unrhyw brawf perthnasol ar gyfer twbercwlosis arno; neu

(c) penderfynu ar werth yr the anifail mewn achos pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu peri ei gigydda o dan adran 32 o'r Ddeddf wedi'i chymhwyso o ran twbercwlosis,

ac yn arbennig rhaid iddo drefnu ar ei draul ei hun i gasglu, corlannu a chadw unrhyw anifail o'r fath yn ddiogel os gofynnir hynny.

(4) Heb ragfarnu unrhyw achos ar gyfer trosedd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliad 1981 yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, pan fu yna fethiant i brofi anifail yn unol â hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff (1), caiff y Cynulliad Cenedlaethol gymryd neu beri cymryd yr holl gamau a all fod yn angenrheidiol i hwyluso archwilio, profi ac, os yn briodol, penderfynu ar werth yr anifail hwnnw (yn cynnwys symud yr anifail o'r fangre lle'i cedwir), a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill cyfanswm unrhyw dreuliau a ddaeth yn rhesymol i ran y Cynulliad Cenedlaethol wrth adfer y methiant oddi wrth y person a fethodd â chydymffurfio.

(5) Pan fo prawf perthnasol wedi'i wneud ar anifail buchol, ni chaiff unrhyw berson symud yr anifail hwnnw o'r fangre lle y'i cedwir oni bai—

(a) bod y symud hwnnw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan archwiliwr milfeddygol; neu

(b) bod canlyniadau'r prawf wedi'u darllen gan arolygydd, a hynny gyda chanlyniad negyddol.

(6) Ni chaiff unrhyw berson ymyrryd â gweinyddu neu ddarllen prawf perthnasol.

Profion cyn Symud

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) ac i erthyglau 11 a 23, a heb leihau effaith gofynion Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Iechyd Anifeiliaid) (Cymru a Lloegr) 1985(**4**), ni chaiff person symud anifail buchol o unrhyw fangre oni bai fod prawf croen wedi'i wneud arno ddim mwy na 60 diwrnod cyn dyddiad y symud.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i'r anifeiliaid canlynol—

(a) anifeiliaid buchol mewn buchesau sy'n ddarostyngedig i gael eu profi'n rheolaidd ar gyfer twbercwlosis yn llai aml nac unwaith bob dwy flynedd;

(b) anifeiliaid buchol sydd o dan 6 wythnos oed ar ddyddiad y symud;

(c) anifeiliaid buchol sydd wedi bod yn bresennol yn y fangre am ddim mwy na 30 diwrnod ar ddyddiad y symud;

(ch) anifeiliaid buchol sy'n ddarostyngedig i brofion blynyddol rheolaidd am y rhesymau canlynol yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd yn unig—

(i) eu bod ar fferm y mae'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol yn ystyried ei bod yn fferm agored;

(ii) eu bod yn rhan o fuches y mae'r Arolygiaeth Hylendid Llaeth wedi'i chymeradwyo ar gyfer gwerthu llaeth buwch crai ar gyfer ei yfed yn syth i'r defnyddiwr terfynol, un ai drwy fanwerthu llaeth potel neu fel rhan o fusnes arlwyo ar y fferm;

(iii) eu bod yn rhan o fuches y defnyddir llaeth buwch crai yn rheolaidd ohoni ar gyfer cynhyrchu caws heb ei basteureiddio neu unrhyw gynhyrchion llaeth eraill heb eu pasteureiddio;

(d) anifeiliaid buchol sydd mewn canolfan gasglu semen wedi'i chymeradwyo.

(3) At ddibenion paragraff (1), dyddiad y prawf yw dyddiad y pigiad gyda thwbercwlin.

(4) At ddibenion paragraff (2) (ch) (i) o'r erthygl hon, ystyr "fferm agored" ("*open farm*") yw fferm sy'n agored ar gyfer ymweliadau gan y cyhoedd neu adrannau o'r cyhoedd.

Cofnodion o brofion ar gyfer twbercwlosis

10.—(1) Pan fo prawf croen wedi'i wneud ar anifail buchol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cofnod mewn ysgrifen o ganlyniadau'r prawf i geidwad yr anifail hwnnw cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i ganlyniadau'r prawf gael eu darllen gan arolygydd.

(**4**) O.S. 1985/1861.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i anifeiliaid y mae eu symud wedi'i wahardd neu'n parhau wedi'i wahardd o dan y Gorchymyn hwn yn dilyn y prawf.

(3) Rhaid i geidwad unrhyw anifail y mae paragraff (1) yn gymwys iddo—

(a) cadw cofnod o ganlyniad y prawf am gyfnod o 3 blynedd a 60 diwrnod ar ôl dyddiad y pigiad gyda thwbercwlin; a

(b) dangos y cofnod hwnnw pan fo arolygydd yn gofyn hynny.

Symudiadau a Ganiateir

11. Er gwaethaf erthygl 9, fe ganiateir y symudiadau canlynol—

(a) symudiadau a bennir yn yr Atodlen; a

(b) unrhyw symudiad o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol.

Gwaharddiadau

12.—(1) Ni chaiff person frechu anifail buchol yn erbyn twbercwlosis heb ganiatâd ysgrifenedig y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Ni chaiff person drin anifail buchol ar gyfer twbercwlosis heb ganiatâd ysgrifenedig y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Ni chaiff person brofi anifail buchol ar gyfer twbercwlosis heblaw gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cynulliad Cenedlaethol, a rhaid i berson y rhoddir y fath ganiatâd iddo adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch canlyniad y prawf cyn gynted ag y gŵyr beth yw'r canlyniad hwnnw.

Gwaharddiadau ar symud anifeiliaid

13. Heb leihau effaith erthyglau 7(3)(c) ac 8(2), caiff arolygydd, at ddiben rheoli neu rwystro ymlediad twbercwlosis, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad anifeiliaid buchol a gedwir yn y fangre a bennir yn yr hysbysiad, wahardd symud anifeiliaid buchol, neu'r anifeiliaid buchol hynny a bennir yn yr hysbysiad, i'r fangre honno neu allan ohoni, heblaw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd.

Hysbysu ynghylch y bwriad i gigydda anifeiliaid

14.—(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu cigydda anifail buchol o dan adran 32 o'r Ddeddf fel y mae wedi'i chymhwyso i dwbercwlosis, rhaid i arolygydd gyflwyno hysbysiad i geidwad yr anifail yn hysbysu'r ceidwad o'r bwriad i gigydda ac yn mynnu fod y ceidwad yn cadw'r anifail hyd y cyflawnir y cigydda hwnnw (neu hyd nes y caiff ei drosglwyddo a'i symud ar gyfer y cigydda hwnnw) yn y rhan honno o'r fangre a bennir yn yr hysbysiad ac yn ei ynysu i'r graddau y mae hynny'n ymarferol oddi wrth ba bynnag anifeiliaid eraill a bennir felly.

(2) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan baragraff (1), ni chaiff person symud yr anifail, ac eithrio ar gyfer ei gigydda, heblaw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd.

Rhagofalon rhag lledaenu haint

15.—(1) Pan fo arolygydd milfeddygol wedi'i fodloni fod unrhyw anifail buchol a gedwir mewn unrhyw fangre'n anifail yr effeithiwyd arno neu'n adweithydd, caiff yr arolygydd milfeddygol, drwy gyflwyno hysbysiad i geidwad unrhyw anifail o'r fath, ei gwneud yn ofynnol—

(a) bod y ceidwad yn trin ac yn storio tail neu slyri o unrhyw le a ddefnyddiwyd gan unrhyw anifail o'r fath yn unol â gofynion yr hysbysiad;